Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

**CADEIRYDD/CHAIRMAN: JOHN LLOYD JONES OBE PRIF WEITHREDWR/CHIEF EXECUTIVE: ROGER THOMAS**

*Anfonwch eich ateb at/Please reply to:* Roger Thomas, Prif Weithredwr/Chief Executive
Cyfeiriad Isod/Address Below
Llinell Union/Direct Dial: (01248) 385568; Ffacs/Fax: (01248) 385506
Ebost/Email: n.sanpher@ccw.gov.uk

Mr Alun Thomas
Ysgrifennydd Awdurdod S4C
S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd CF14 5DU

20/07/07

Annwyl Mr Thomas

**YMGYNGHORIAD S4C – CYNIGION AR GYFER DARPARU SIANEL DELEDU GYMRAEG AR GYFER PLANT YN Y DYFODOL**

**SUBJECT: S4C CONSULTATION - PROPOSALS FOR THE FUTURE PROVISION OF A WELSH LANGUAGE TELEVISION CHANNEL FOR CHILDREN**

Er na fyddem yn gwrthwynebu'r cynnig o gael sianel deledu gyhoeddus Gymraeg newydd ar gyfer plant, fe fyddem yn cefnogi'r arfer o barhau i ddarparu gwasanaeth darlledu'r Cynulliad mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Mae S4C2 yn cynnig swyddogaeth bwysig o safbwynt darlledu busnes y Cynulliad, ac mae disgwyl i hyn gynyddu o ganlyniad i'r trefniant gwell a ddaeth yn sgil datganoli. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn werthfawr iawn i'r rheini sy'n byw y tu allan i Gaerdydd ac sydd â diddordeb personol yng ngwleidyddiaeth Cymru.

While we would not object to the proposal for a new Welsh language public service television channel for children, we would support the continued service provision of Assembly broadcasting in some form. S4C2 serves an important public information function in broadcasting Assembly business, which is also set to increase as a result of the enhanced devolution settlement. Current provision is particularly valuable to those living outside of Cardiff who have a vested interest in Welsh politics.

Os bydd yr ymgynghoriad yn dod i'r casgliad y bydd llai – neu ddim – darlledu o'r Cynulliad ar S4C2, yna byddai'n rhesymol cynnig dull arall o ddarparu'r wybodaeth hon, er enghraifft sicrhau bod modd cael gafael ar recordiadau'n rhad ac am ddim neu wella darpariaeth y gwasanaethau gwe. Ar hyn o bryd, nid yw recordiadau o fusnes y Cynulliad ar gael yn rhad ac am ddim, mae'r gwasanaethau gwe'n gyfyngedig o ran eu hansawdd, ac maen nhw hefyd yn ddibynnol ar safon yr offer technoleg gwybodaeth sydd ar gael. Efallai na fydd gan y cyhoedd a chyrff y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus yr adnoddau i'w buddsoddi yn y dewisiadau eraill hyn.

If the consultation concludes that there will be less or no provision of Assembly broadcasting on S4C2, then it would seem reasonable to propose an alternative means of providing this information, whether it be access to recordings free of charge, or improvements in the provision of web-casting services. Currently, recordings of Assembly business are not available free of charge, the web-casting service is limited in terms of its quality, and is also dependent on the standard of IT equipment available. Public and voluntary sector bodies and members of the public may not have the resources to invest in these alternatives.

Yn gywir / Yours sincerely

Roger Thomas

**Roger Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**